

## CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 2 Ebrill, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Rhodri Jenkins (yn y Gadair), Brython Davies, Jane Hopkins, Phil Lloyd, James Raw, Cyng. Rhodri Davies

**1. YMDDIHEURIADAU:**

Eluned Evans, Elise Powell.

**2. COFNODION 5ed Mawrth, 2015**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd gan Jane Hopkins ac aelwyd gan Phil Lloyd.

**3. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**(a) Ffordd Rhos Perian ac ardal Cwmystwyth**

Adroddwyd fod y gwaith ar y draenau a'r tyllau y ffordd yn yr ardal uchod wedi cael eu cwblhau gan Gyngor Sir Ceredigion. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn danfon llythyr o werthfawrogiad i Swyddogion a Gweithwyr y Cyngor Sir am gwblhau y gwaith mewn modd addas a chyflym.

**(b) Dwr yn rhedeg o'r ffordd fawr i dir y Capel yng Nghwmystwyth.**

Adroddodd Brython Davies fod Bryan Thomas, Swyddog Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn ymweld a'r safle y diwrnod hwnnw ac wedi gweld bod y broblem yn codi o ddraenau angen sylw a bydd y gwaith yn cael ei wneud fel mater o frys.

**(c) Tâp Oren ar y ffordd gyferbyn a mynedfa maes parcio'r Hafod ym Mhontarfynach.**

Cyfeiriwyd fod y Cyngor Sir wedi newid ac ail-ddodi y tâp ond erbyn nawr roedd wedi cwmpo eto.

**(ch) Safle We:**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi bod ar hyfforddiant ar lawrlwytho manylion i'r safle. Derbyniwyd Grant o £500 gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer taliad y safle we.

**(d) Cyflymdra tu allan i'r Ysgol ym Mhontarfynach**

Cynghorydd Rhodri Davies yn mynd i gwrdd Swyddogion y Cyngor Sir yn fuan.

**(dd) Toiledau ym Mhontarfynach**

Adroddodd Rhodri Jenkins ei fod wedi cael gwybodaeth y meddir llogi *porta loos* dros gyfnod y Gaeaf am gost o £25.00 yr wythnos. Y Clerc i ymchwilio am brisiau o yswirio y toiledau yma ac hefyd i dderbyn gwybodaeth gan y Cyngor Sir a fyddai modd lleoli'r toiledau dros dro ar safle'r toiledau presennol. Nodir pe byddid yn cytuno gyda'r trefniadau yma bod angen cael mwy nag un amcanbris.

**4. CYLLID**

(a) Nododd y Clerc fod £533.12 yng Nghyfrif Cyfredol y Banc a £5,114.36 yn y Cyfrif Cadw y Cyngor Bro ar y diwrnod hwnnw.

(b) Cyfeiriodd y Clerc y derbyniwyd ad-daliad<sub>1</sub> am daliadau TAW o £334.54 o 1af Chwefror

2014 i 28ain Chwefror 2015.

- (c) Derbyniwyd hefyd ad-daliad am nwyddau ail-gylchu o £15.30 am Chwarter 3 Medi-Rhagfyr 2014.

## **5. GOHEBIAETH**

### **(a) Eisteddfod Cwmystwyth**

Derbyniwyd lythyr wrth Mrs Mair Davies, Ysgrifennydd Eisteddfod Cwmystwyth yn gofyn am nawdd gan y Cyngor Bro i'r Eisteddfod. Nodir y cynhaliwyd Eisteddfod yng Nghwmystwyth flynyddoedd lawer yn ôl a bod trefniadau ar y gweill yn awr i adnewyddu yr arferiad drwy gynnal Eisteddfod yng Nghwmystwyth ar y 19eg Medi 2015.

Datganodd Brython Davies a'r Cyng Rhodri Davies ddiddordeb a gadawyd yr ystafell. Gan y gall nifer o'r cynghorwyr a'u teuluoedd fod yn cystadlu yn yr Eisteddfod cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf yn dilyn derbyn cyngor, a fyddai angen datgan budd. Roedd yr aelodau yn awyddus fod y Clerc yn cyfleu fod yr aelodau yn gefnogol ac nad oedd yr oedi yn golygu gwrthwynebiad i'r cais.

## **6. UNRHYW FATER ARALL**

Cyfeiriodd Brython Davies at sylw a dderbyniodd am gyflwr y Blwch AA ger Gwesty'r Hafod. Er nad yw'r Blwch o eiddo'r Cyngor Bro roedd angen edrych mewn i'r posibilrwydd o'i dacluso lan. Y Clerc i ymchwilio.

## **7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Nos Iau 7fed Mai, 2015 yn Ysgol Mynach ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol.